**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 3 - DYDD LLUN, 2 RHAGFYR 2024**

COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 2 RHAGFYR 2024 AM 4:00PM

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| S J Bletsoe | C Davies | J E Pratt |

Yn Bresennol yn Rhithwir

| | | |
|---|---|---|
| P W Jenkins | G Walter | MJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

N Clarke, RJ Collins, MJ Kearn, W J Kendall ac I Williams

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid |
| Martin Morgans | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau |
| Ryan Jones | Rheolwr Comisiynu Tai Strategol |
| Adam Provoost | Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Strategol |
| Joanne Ginn | Rheolwr Datrysiadau Tai |
| Georgina Wayman | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |

Helen Pembridge – Rheolwr Tîm – Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro (Gorfodaeth Tai a Rheoli Llygredd)

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Datgan Buddiannau

Cynghorydd Steven Bletsoe - Personol – eitem 5 – Pennaeth Hyfforddiant a Datblygu Busnes a Rheolwr Gweithrediadau Cymru yn y Gymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl, sy'n sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli landlordiaid sector preifat.
Cynghorydd Jonathan Pratt - Personol – eitem 6 – Aelod etholedig o Gyngor Tref Porthcawl, sydd wedi bod yn derbyn Cyllid Ffyniant Gyffredin y DU.
Cynghorydd Martin Williams - Personol – Aelod etholedig o Gyngor Cymuned Uwch Coety, sydd wedi bod yn derbyn Cyllid Ffyniant Gyffredin y DU.
Cynghorydd Colin Davies - Personol – eitem 6 – bu'n gweithio ar gais rhanbarthol am Gyllid Ffyniant Gyffredin ar gyfer awdurdod lleol arall.

## 86. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 dyddiedig 30 Medi 2024 wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir a gwir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 2 Rhagfyr 2024 |

## 87. Diweddariad Tai a Digartrefedd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Canmolodd y Pwyllgor waith caled y Tîm Tai, gan amlygu eu bod yn delio â rhai o'r bobl mwyaf agored i niwed yn y Gymuned, ac roeddent yn cydnabod y pwysau a fu ar y tîm dros y ddwy flynedd ddiwethaf.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth fanwl gyda'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion canlynol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. Trafododd yr Aelodau pa mor hanfodol oedd cyllid Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru, roedd rhewi'r Grant wedi rhoi pwysau sylweddol ar draws Cymru, a 18 mis yn ôl roedd cyfarfodydd rheolaidd rhwng 22 awdurdod lleol Cymru ynghylch Digartrefedd wedi dod i ben, a fynychwyd yn flaenorol gan rwydwaith o unigolion a allai roi adborth gweithredol i Lywodraeth |

| | |
|---|---|
| | Cymru.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth am natur a theitl y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn flaenorol a **argymhellodd**, ar ôl derbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani, y dylid anfon llythyr oddi wrth y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn gofyn am y rhesymau dros derfynu’r cyfarfodydd, a oedd cynlluniau i ailddechrau nhw ac os na, y rheswm pam.<br><br>2. Trafododd y Pwyllgor fater adeiladau gwag ac adfeiliedig yn y fwrdeistref a gofynnodd a oedd unrhyw gynlluniau neu strategaethau a allai alluogi'r Awdurdod Lleol i gymryd rheolaeth dros adeiladau gwag o'r fath i'w troi'n dai cymdeithasol.<br><br>**Argymhellodd** y Pwyllgor pan fydd eiddo sy'n eiddo i'r Cyngor yn dod yn wag, dylid archwilio pob opsiwn gan gynnwys a ellid ei ddefnyddio gan ran arall o'r Awdurdod e.e. ar gyfer ail-bwrpasu fel llety tai, cyn ystyried a yw'n cael ei ddatgan yn warged, ei farchnata i'w werthu, neu ei waredu fel arall.<br><br>Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd yr Awdurdod yn edrych ar ffyrdd dyfeisgar o weithio gyda phartneriaid i ddod ag eiddo yn ôl i ddefnydd a allai'n anochel leihau'r costau.<br><br>3. Mynegodd y Pwyllgor bryder y byddai'r lefel arfaethedig o dai cymdeithasol dim ond yn mynd i'r afael â 50% o'r rhestr aros bresennol, a gofynnodd a oedd cyfle i adolygu'r ffigurau a chyflwyno cais arall ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).<br><br>Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) eleni, y byddai asesiad tai a marchnata lleol yn cael ei gynnal bob dwy i dair blynedd a fyddai'n darparu ffigurau cyfredol i alluogi trafodaethau ar gyfer y cymysgedd a'r math cywir o dai; fodd bynnag, byddai'r adolygiad gwirioneddol ar gyfer y CDLl 4 blynedd o'i fabwysiadu.<br><br>**Argymhellodd** y Pwyllgor i annog Aelodau i archwilio'r ffigurau diweddaraf o'r Asesiad Tai a Marchnata Lleol wrth ystyried adolygu'r CDLl ymhen 4 blynedd, ac o ystyried pryder yr Aelodau am glywed yn y cyfarfod o ddatblygiad nad yw'n cyrraedd ei darged canran llawn i adeiladu tai cymdeithasol, y dylid cadw at y targedau arfaethedig ar gyfer canran tai yn drylwyr drwy gydol y broses Gynllunio. |

| | |
|---|---|
| | **Gwybodaeth ychwanegol:**<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaeth gyda'r Aelod Cabinet a'r Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau canlynol am wybodaeth:<br><br>4. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y brif ffrwd ariannu cyfalaf ar gyfer datblygu tai fforddiadwy, y Grant Tai Cymdeithasol, gan gynnwys y canlynol:<br><br>a. Manylion y partneriaid GTC lleol y gweithiwyd â nhw;<br>b. Dadansoddiad o ddyraniad costau;<br>c. Ar gyfer beth y defnyddiwyd y costau;<br>d. Manylion ar sut mae'r Cyngor yn edrych ar y datblygiadau y gwnaed cais amdanynt;<br>e. P'un a gafodd y cynigion am ddatblygiadau eu cyflwyno ar amser ac am bris gwreiddiol y contract. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 2 Rhagfyr 2024 |

**88. Adroddiad gwybodaeth - Cronfeydd Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn trafodaeth ynghylch yr adroddiad yn Adroddiad Gwybodaeth, gofynnodd y Pwyllgor am drafod Adroddiad Gwybodaeth Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yng nghyfarfod cynllunio nesaf y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gyda'r amcan y caiff ei drefnu mewn cyfarfod yn y dyfodol i alluogi Aelodau'r Pwyllgor i ofyn a derbyn ymateb i'w cwestiynau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 2 Rhagfyr 2024 |

## 89. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A Yn amodol ar gynnwys yr eitemau isod, nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nododd y byddai'r Flaenraglen Waith, fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor, yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor:<br><br>i. Bod Adroddiad Gwybodaeth Grant Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig yn cael ei drefnu mewn cyfarfod yn y dyfodol i alluogi Aelodau'r Pwyllgor i ofyn a derbyn ymateb i'w cwestiynau.<br>ii. Rhoi ystyriaeth yng nghyfarfod cynllunio nesaf y Flaenraglen Waith i gyflwyno adroddiad ar Adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, er mwyn i'r Pwyllgor ystyried y prif gynllun, craffu ar yr hyn a gyflawnwyd a chynnydd y cynigion tymor canolig a hir.<br>iii. Briff pob Aelod ar ddatblygiad Sunnyside.<br>iv. Bod y wybodaeth ganlynol yn cael ei chynnwys yng nghwmpas adroddiad Neuadd y Dref Maesteg, a drefnwyd ar y Flaenraglen Waith:<br>- Cyfiawnhau'r arian a wariwyd;<br>- Manylion mewnol o'r hyn a ddigwyddodd;<br>- Manylion yr heriau a wynebwyd;<br>- Manylion y gwersi a ddysgwyd;<br>- Cyflwyniad posibl gan Swyddogion;<br>- Gwerthusiad gonest o'r hyn y gellid bod wedi ei newid neu ei wneud yn wahanol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 2 Rhagfyr 2024 |

## 90. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 2 Rhagfyr 2024 |

I wylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 6:17pm.